Pwyllgor Safonau

Adolygiad o Fuddiannau'r Aelodau

Rheolau Sefydlog a Chyfarwyddyd

Diben yr adroddiad drafft hwn yw cynorthwyo aelodau'r Pwyllgor Safonau i archwilio Rheol Sefydlog 4 i weld a ydyw'n bodloni'r gofynion hyn ac i lunio, mewn egwyddor, unrhyw welliannau a argymhellir. Yna, gallai unrhyw argymhelliad o'r fath fod yn destun adroddiad drafft manwl gyda'r pwrpas o wahodd y Cynulliad i wneud unrhyw adolygiad angenrheidiol

i’r Rheolau Sefydlog.

Er hwylustod, mae’r adroddiad wedi’i osod yn y ffurf a argymhellir ar gyfer adroddiad terfynol y Pwyllgor i’r Cynulliad ac, unwaith y bydd y Pwyllgor wedi llywio’r Ysgrifenyddiaeth i’r cyfeiriad cywir, daw yn adroddiad drafft i’w ystyried yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Gorffennaf.

Adroddiad Drafft – Ebrill 2000

Cyflwyniad a Chefndir

[Testun cychwynnol am yr Adolygiad a rôl/barn y Pwyllgor…….Profiadau yn y 12 mis cyntaf etc.]

Mae Deddf Llywodraeth Cymru 1998 (Adran 72) yn amlinellu mesurau y mae’n ofynnol neu mae hawl gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i’w hymgorffori i’w Reolau Sefydlog er mwyn cadw safonau gonestrwydd.

Mae’r Ddeddf yn ei gwneud yn drosedd i dorri mewn rhyw ffordd ar y Rheol Sefydlog berthnasol (Rheol Sefydlog 4).

I fod o fudd i’r cyhoedd a’r Aelodau, mae’n hanfodol bwysig fod y Rheolau Sefydlog yn bodloni’r safonau a osodir yn y Ddeddf, eu bod yn hawdd i’w deall ac y gellir eu gorfodi.

Gofynion A.72 Deddf Llywodraeth Cymru.

Mewn perthynas â Rheolau Sefydlog:

Rhaid iddynt ddarparu ar gyfer cofrestru buddiannau (diffinnir y buddiannau i’w cofrestru yn y Rheolau Sefydlog):

Rhaid iddynt ei gwneud yn ofynnol i Aelod ddatgan ei fuddiannau ariannol a buddiannau eraill (fel a ddiffinnir yn y Rheolau Sefydlog) cyn cymryd rhan mewn unrhyw drafodion yn y Cynulliad **sy'n berthnasol i'r buddiant hwnnw**;

Gallant wahardd neu gyfyngu ar ryddid Aelod i gymryd rhan mewn trafodion os oes gan yr aelod fuddiant yn y mater y mae'r trafodion yn berthnasol iddo;

Rhaid iddynt wahardd Aelod rhag siarad o blaid (neu annog eraill i siarad o blaid) achos arbennig yn gyfnewid am wobr ariannol neu o natur arall;

Gallant ddarparu ar gyfer cosbi Aelod sy'n methu â chydymffurfio â'r rheolau uchod drwy ei wahardd o'r Cynulliad, yn ogystal â thynnu yn ôl ei hawliau a'i freintiau.

Mae Rheol Sefydlog 4 yn cynnwys yr holl fathau hyn ar ddarpariaeth. Y safonau a osodir i'r Cynulliad felly yw'r rhai uchaf posibl o dan y Ddeddf.

Rhan I – Materion ac Argymhellion

Cofrestru Buddiannau

Amlinellir y buddiannau y dylid eu cofrestru yn yr atodiad i Reol Sefydlog 4 [gweler Atodiad 1] Ar y cyfan, mae'n ymddangos y deëllir hwy yn llawn. Mae Aelodau'r Pwyllgor wedi tynnu sylw at y cwestiwn a yw "nawdd ariannol" o dan baragraff 6 yn cynnwys talu costau etholiadol neu ddarparu cymorth a chyfleusterau parhaus gan y blaid wleidyddol gofrestredig yr etholwyd yr Aelod yn ei henw. Cyngor y swyddogion yw nad yw'n cynnwys hyn. Gyda chytundeb y Pwyllgor, rhoddwyd cyfarwyddyd ychwanegol am y cyfryw fater i'r Aelodau yn Ebrill 2000.

Gallai fod angen esboniad ar yr Adran Gyffredinol o'r Atodiad sy'n gofyn am nodi hyd at y £5000 agosaf y symiau sy'n deillio o gontractau neu ffynonellau incwm neu fantais. Nid oes diffiniad o sut i wneud y prisiad, ee yn achos incwm sy'n amrywio, dros ba gyfnod y dylid gwneud yr asesiad ac yn achos ased ar ba ddyddiad y dylid ei phrisio. Nid yw Cyfarwyddyd y Cynulliad ar Gofrestru Buddiannau yn rhoi ateb clir i'r fath gwestiynau.

Mater 1 – i'w ystyried gan y Pwyllgor

Ydy'r Pwyllgor yn fodlon fod paragraff 1 o Adran Gyffredinol yr Atodiad yn glir ac yn

cydweddu â'r hyn sy'n angenrheidiol i sicrhau safonau gonestrwydd cywir? Os nad ydy, pa welliannau y byddai'r Pwyllgor am eu gweld?

Cyngor Cyfreithiol

- *Mae angen eglurhad ar ofynion ac amlder yr adolygiad. Amgaeir cyfarwyddyd drafft ychwanegol yn Atodiad 1*

Argymhelliad:

- *Eglurhad ar sylfaen y maen prawf o £5000.*

Angen Gweithredu Ychwanegol:

- *Mae angen ymgorffori'r cyfarwyddyd ychwanegol i'r prif gyfarwyddyd ar gofrestru a datgan buddiannau.*

Cofrestru yn Ymarferol

Mae rhai Aelodau wedi mabwysiadu'r arfer o gofrestru buddiannau nad yw'n ofynnol iddynt eu cofrestru, ee lletygarwch sydd â'i werth yn is na'r trothwy o 0.5% o gyflogau'r Aelodau. A ddylid caniatáu hyn, neu a ddylid cyfyngu'r gofrestr i fuddiannau sy'n rhaid eu cofrestru. Mae Senedd yr Alban wedi mabwysiadu cofrestr mewn dwy ran, un ar gyfer cofrestru gorfodol a'r llall ar gyfer cofrestru gwirfoddol.

Eto, mae cyfarwyddyd ychwanegol wedi'i gyhoeddi yn dilyn trafodaethau yn y Pwyllgor. Mae'r arferiad wedi dechrau newid yn y misoedd diwethaf oherwydd y cyfarwyddyd a'r cyngor a roddwyd i'r Aelodau gan staff y Swyddfa Gyflwyno. Y pryder yw y gellid gwneud cymariaethau anffafriol rhwng y rhai sy'n cydymffurfio â'r rheolau a'r rhai sy'n cofrestru popeth.

Mater 2 – i'w ystyried gan y Pwyllgor

A ddylid caniatáu i Aelodau gofrestru buddiannau nad oes rhaid eu cofrestru o dan Reol Sefydlog 4? Os felly, a ddylid gwneud hynny drwy gyfrwng adran ar wahân ar gyfer cofrestru buddiannau yn wirfoddol?

Argymhellion

- *Bod y prif gyfarwyddyd ar gofrestru a datgan buddiannau yn cael ei gryfhau i ymgorffori'r negeseuon ychwanegol y mae'r Pwyllgor wedi'u cyhoeddi.*

- *Ni chredwn y dylid tynnu'n ôl hawl Aelod i ddewis a ydyw am gofrestru a/neu ddatgan eitemau/manteision ychwanegol*
- *Ni chefnogir y gofrestr wirfoddol ar y sail ganlynol:*

  Gallai fod galw i'w chyhoeddi [a gallai'r cyhoedd yn sicr weld copi caled ohoni] gan arwain at gwestiynau pam nad oes cofnodion gyferbyn ag enw aelod neilltuol gyda'r canlyniad o roi mwy o bwysau ar yr Aelodau i ddatgan popeth. Byddai hyn yn hunandrechol ac, er ei bod yn "wirfoddol", ni châi hyn wared ar y potensial i wneud cymariaethau anffafriol. Mae posibilrwydd hefyd y bydd hyn yn arwain at obligiadau o ran adnoddau staff. Amcangyfrifir fod yr arfer o or-gofrestru erbyn hyn wedi'i gyfyngu i tua 3-4 Aelod.

Datgan Buddiannau

Dywed Adran 72(2) o'r Ddeddf : "Rhaid i'r Rheolau Sefydlog gynnwys darpariaeth i unrhyw aelod sydd â -

a. Buddiant ariannol (fel a ddiffinir yn y Rheolau Sefydlog) mewn unrhyw fater, neu
b. Unrhyw fuddiant arall, neu unrhyw fuddiant o unrhyw fath arall, a ddynodir yn y rheolau sefydlog mewn unrhyw fater

ddatgan y buddiant hwnnw cyn cymryd rhan yn y trafodion…."

"Buddiant ariannol" yw buddiant a ddiffinnir yn y rheolau sefydlog (adran 72(2)(a) o Ddeddf Llywodraeth Cymru). Mae buddiannau ariannol y Cynulliad yn debyg i'r rhai a amlinellir yn rheolau sefydlog Senedd yr Alban sydd â'u hawdurdod yn deillio o ddarpariaethau tebyg yn adran 39(2)(a) Deddf yr Alban 1998. Mae'r darpariaethau'n debyg i'r rhai a amlinellir yn Rheolau Sefydlog T'r Cyffredin. Gellid felly ystyried fod Rheolau Sefydlog y Cynulliad yn ddigonol yn hyn o beth fel y maent ar hyn o bryd.

Diffiniwyd y gofyniad i ddatgan "unrhyw fuddiant arall neu fath ar fuddiant a nodir yn y Rheolau Sefydlog" yn Rheol Sefydlog 4.5 fel y buddiannau hynny a nodir yn yr Atodiad i'r Rheolau Sefydlog ac mae'r rhan fwyaf o natur ariannol. Gellid dadlau yn ddamcaniaethol nad yw Rheol Sefydlog 4.5 yn adlewyrchu'n llawn fwriad Adran 72(2) o'r Ddeddf a bod angen ychwanegu categori gofynion cyffredinol. Byddai rhaid ei ddiffinio yn y Rheolau Sefydlog a'i gynnwys yn yr Atodiad.

Mae yna ddwy broblem gyda'r awgrym hwn : <u>yn gyntaf</u>, y byddai'n rhaid diffinio'n groyw ystyr hyn (yn arbennig felly gan fod cosb droseddol ynghlwm wrtho). Y cyngor cyfreithiol yw y byddai hyn yn anodd iawn i'w wneud; petai'n gysylltiedig (dyweder) â grantiau neu fanteision, efallai y gellid ei gysylltu â swyddogaethau'r Cynulliad. A dilyn yr enghraifft hon, byddai'n golygu y byddai angen adolygu pob deddfwriaeth wrth iddi gael ei chymeradwyo

(neu ei chychwyn?) i benderfynu a fyddai'n effeithio ar sefyllfa'r Aelodau. Yn ail, gellid dehongli unrhyw ddiffiniad mewn cymaint o wahanol ddulliau nes y byddai'n cyfyngu ar allu'r Aelodau i gymryd rhan a/neu eu troi'n destun cwynion.

Mater 3 – i'w ystyried gan y Pwyllgor

A fyddai'n gliriach ac yn nes at fwriad y Ddeddf petai gofyn cyffredinol i ddatgan "buddiant ariannol" (a byddai rhaid diffinio hyn) cyn cymryd rhan mewn trafodion yn ymwneud â'r fath fuddiant?

Argymhelliad:

- *Gan fod y rheolau sefydlog presennol yn glir, ac nad yw hyn wedi profi i fod yn broblem yma nac mewn Seneddau/Cynulliadau eraill sy'n gweithredu ar yr un sail ac y byddai'n hynod o anodd drafftio diffiniad cryf a rhesymol a fyddai'n caniatáu i'r Aelodau gymryd rhan fel Aelodau, argymhellwn gadw at y trefniadau presennol.*

Datgan Buddiannau yn Ymarferol

Mewn un ffordd, mae Rheol Sefydlog 4.5 yn fwy cyfyng nag sy'n ofynnol o dan y Ddeddf. Nid yw'r Ddeddf yn nodi sut mae gwneud y datganiad tra'i bod yn ofynnol o dan Reol Sefydlog 4.5 i wneud hynny yn llafar ac (mae'n debyg) ar bob achlysur pryd y trafodir mater. Mae darpariaeth yn y Ddeddf Llywodraeth Leol i roi datganiad ysgrifenedig am fuddiannau. Mae gan y Cynulliad ei gofrestr buddiannau. Os yw Aelod, er enghraifft, yn ffermwr neu yn berchen ar eiddo sy'n cael ei rentu ac wedi cofrestru hynny, a oes angen hefyd ddatgan y ffaith honno bob tro y mae'r Cynulliad yn ystyried amaethyddiaeth neu dai?

Cafwyd anhawster i wybod yn union yr hyn sydd ei angen yn rhan hon y rheolau sefydlog/ cyfarwyddyd. O ganlyniad, cyhoeddwyd cyfarwyddyd ategol ar ran y Pwyllgor yn Ebrill 2000. Mae cysylltiad agos rhwng y mater a'r ystyriaethau ynghylch pleidleisio. [gweler paragraff xx isod].

Mater 4 – i'w ystyried gan y Pwyllgor

A fydd rhaid gwneud datganiad llafar o fuddiant sydd eisoes wedi'i gofrestru pryd bynnag fo'r Cynulliad yn ystyried mater sy'n effeithio ar y buddiant hwnnw?

Argymhellion:

- *Dylid ail-ddrafftio'r cyfarwyddyd i egluro'n union yr hyn sydd ei angen drwy ymgorffori'r deunydd ychwanegol o'r cyfarwyddyd ategol a gyhoeddir gan y Pwyllgor.*

- *Nid yw'r Ysgrifenyddiaeth fodd bynnag yn argymell unrhyw newidiadau sylweddol yn yr union ofynion oherwydd y gellid gweld hyn fel ffordd o wanhau safonau'r Cynulliad.*

Gwahardd Pleidleisio

Mae Rheol Sefydlog 4.7 yn gwahardd Aelod rhag pleidleisio ar fater os gallai'r penderfyniad "arwain at fantais ariannol uniongyrchol i'r Aelod a fyddai'n fwy na'r fantais a allai ddod i ran y personau y byddai'r penderfyniad yn effeithio arnynt yn gyffredinol."

Gall deall a gweithredu'r rheol hon godi anawsterau mawrion. Mae bron pob penderfyniad a wna'r Cynulliad yn effeithio ar nifer eang o bobl. Sut y diffinnir y math o bobl yr effeithir arnynt gan benderfyniad arbennig? Sut y gellir barnu a fydd Aelod arbennig neu efallai y bydd Aelod arbennig yn cael neu bod posibilrwydd iddo gael mantais ariannol uniongyrchol uwch na'r dosbarth hwnnw o berson?

Ar y llaw arall, dim ond manteision ariannol uniongyrchol sy'n achosi'r gwaharddiad.

Nid yw'r Ddeddf yn gwneud rheol o'r math yma yn orfodol ac nid oes rheol debyg yn berthnasol i Senedd San Steffan na Senedd yr Alban. Ystyrir datgan buddiant yn ddigonol i rwystro camddefnyddio pleidlais Aelod er mwyn cynyddu enillion personol. Mae safonau'r Cynulliad felly'n uwch na'r cyrff deddfwriaethol eraill.

Un opsiwn fyddai cydlunio trefniadau'r Cynulliad â'r rhai a weithredir yn yr Alban a San Steffan. Mae'n eglur, fodd bynnag, o'n trafodaethau blaenorol na fyddai'r Pwyllgor am roi'r argraff ei fod yn gwanhau ei safonau ac, yn wir, mae'r Pwyllgor wedi nodi o'r blaen ei bryder am y ffaith fod rheolau'r Cynulliad yn ymddangos yn llai llym na'r rhai a weithredir yn y sector llywodraeth leol.

Mae Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn gwahardd pleidleisio lle y mae gan yr Aelod fuddiant ariannol uniongyrchol neu anuniongyrchol mewn unrhyw gontract neu fater arall. Mae gan aelod fuddiant ariannol anuniongyrchol os yw'r Aelod neu'r sawl a enwebir gan yr Aelod yn aelod o gwmni neu gorff arall neu'n bartner neu'n gyflogedig gan berson sydd â buddiant ariannol mewn mater. Nid yw aelodaeth neu gyflogaeth gan gyrff cyhoeddus yn cyfrif. Mewn achos lle y mae aelod yn briod â neu'n byw gyda pherson sydd â buddiant ariannol, mae hyn hefyd yn cael ei drin fel buddiant ariannol yr aelod.

A defnyddio'r dull hwn yn fodel, ond a chymryd i ystyriaeth y pwerau a'r cyfrifoldebau llawer ehangach sydd gan y Cynulliad, byddai'n bosibl diffinio "buddiant ariannol" lle gellir seilio arno ddyletswydd i ddatgan buddiant a gwaharddiad ar bleidleisio. Gellid cyfyngu hyn, er enghraifft, i fuddiannau mewn cytundeb a buddiannau ariannol megis grantiau, budd-daliadau a chymorthdaliadau.

Byddai'n rhaid rhoi ystyriaeth ofalus, fodd bynnag, i effaith y fath ddull ar waith y Cynulliad. Byddai hyn yn fwy eglur, ond yr effaith debygol yw cyfyngu ar hawliau rhai Aelodau i bleidleisio ar rai materion.

Mater 5 – I'w ystyried gan y Pwyllgor

Ydy Rheol Sefydlog 4.7 yn eglur a hawdd i'w gweithredu yn ei ffurf bresennol? Os nad ydyw, a yw'r fath waharddiad yn angenrheidiol i ddiogelu safonau gonestrwydd. Os ydyw'n angenrheidiol, sut y gellid ei wneud yn fwy eglur a sut y dylid ei gryfhau?

Argymhellion:

- *Nid yw'r Ysgrifenyddiaeth yn argymell unrhyw newidiadau i gryfhau'r gwaharddiad ar bleidleisio e.e. drwy ddod â threfniadau'r Cynulliad yn nes at y rhai a weithredir mewn llywodraeth leol. Nid ydyw ychwaith yn argymell llaesu'r trefniadau presennol.*

  Fel y nodir uchod, mae ein safonau eisoes yn sylweddol uwch na rhai'r cyrff deddfwriaethol eraill. Mae rheolau'r Cynulliad yn gyfaddawd rhwng y gofynion gweddol eang sydd yn San Steffan a'r dull llym iawn a geir mewn llywodraeth leol. Mae'r rhain yn deillio o'r cyfrifoldebau gwahanol. Yn San Steffan ystyrir egwyddorion cyffredinol a deddfwriaeth tra, mewn llywodraeth leol, mae'r penderfyniadau penodol yn fwy tebygol o effeithio'n uniongyrchol ar unigolion. Gyda gonestrwydd mewn golwg, mae'r Cynulliad wedi mabwysiadu rhywbeth sy'n nes at fodel llywodraeth leol ond sy'n cydnabod cyfrifoldebau a phwerau ehangach y Cynulliad. Gallai gweithredu model llywodraeth leol yn gyffredinol effeithio'n sylweddol ar allu'r aelod i gymryd rhan yn y trafodion.

  Gellid edrych yn ddu ar laesu'r cyfyngiadau gan y rhai sy'n gweithredu yn y sector llywodraeth leol.

  –

Angen Gweithredu ychwanegol:

- *Mae angen i'r cyfarwyddyd ategol gael ei ymgorffori yn y prif gyfarwyddyd ar gofrestru a datgan buddiannau.*

Y Rheol Gwahardd Eiriolaeth am Dâl

Mae'r rheol (Rheol Sefydlog 4.6) yn ymddangos yn eglur ac ni wneir unrhyw sylwadau penodol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, argymhellodd Pwyllgor Neill (6ed adroddiad) yn ddiweddar rai newidiadau yn ymwneud â'r rheolau sydd mewn grym yn San Steffan. Gweler

isod (Adroddiad Neill, Rhan II).

Cosbau am Fethu â Chydymffurfio

Eto, mae'r rheolau (Rheolau Sefydlog 4.8 and 4.9) yn ymddangos yn foddhaol ac ni wneir unrhyw sylwadau penodol.

Rhan II – Materion Ychwanegol, gan gynnwys rhai wedi'u codi gan y Pwyllgor nad ydynt yn cael eu trafod yn unman arall

Clybiau Aelodau Preifat

Y ddadl ydyw a ydy'n bosibl rhoi trefniadau yn eu lle sy'n ei gwneud yn ofynnol i Aelodau ddatgan eu haelodaeth o glybiau aelodau preifat. Fel yr adroddwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 10 Chwefror, trafododd yr Ysgrifenyddiaeth y mater yn fyr gyda Chynulliadau/ Seneddau eraill, y Comisiynydd Seneddol ar Safonau a chynrychiolwyr Pwyllgor Neill ar 7 Chwefror. Yr ateb unfrydol oedd nad oedd wedi bod yn fater yn unman arall nac hyd yn oed yn un a oedd wedi'i ystyried. Ar y llaw arall, gallai'r cynrychiolwyr weld anawsterau mawrion o ran gorfodi a diffinio hyn.

Mae diffinio hyn yn broblem fawr. Sut mae tynnu llinell rhwng y derbyniol a'r annerbyniol? Pe gadewid i'r Aelodau wneud fel y credent yn ddoeth, byddai hyn yn annheg i'r Aelodau hynny a fyddai cael eu rhoi mewn sefyllfa dramgwyddus. A chymryd y gellid dod o hyd i ddiffiniad, byddai'n oddrychol iawn a byddai'n anodd osgoi cyhuddiadau fod rhai clybiau'n cael eu dewis ac nid eraill. Gallai hyn arwain at gyhoeddusrwydd negyddol a di-groeso i'r Cynulliad.

Mae'r materion sy'n codi o'r argymhelliad hwn yn debyg i'r rhai sy'n berthnasol o ran gorfod cofrestru aelodaeth o'r Seiri Rhyddion, ond eu bod yn fwy pellgyrhaeddol. Y gofynion ym mharagraff 11 o'r Atodiad i'r Rheolau Sefydlog yw'r unig ofynion statudol o'u bath yn y Deyrnas Unedig. Mae pryder wedi bod y gallai cynnwys hyn yn y Rheolau Sefydlog fod yn torri'r ddeddfwriaeth ar hawliau dynol ac y gallai ei orfodi felly fod yn anodd. Efallai y byddai'r cyhoedd yn ystyried cael gwared arno fel llaesu safonau oni bai bod anghenraid cyfreithiol cryf dros wneud hyn.

Mater 6 – I'w ystyried gan y Pwyllgor

A ddylid cyflwyno gofyniad i gofrestru aelodaeth o glybiau aelodau preifat a'u cynnwys yn Rheol Sefydlog 4?

Argymhelliad:

Yn yr amgylchiadau a amlinellir uchod a chyda'r perygl o ddwysáu'r ymyriad â hawliau dynol drwy ei gwneud yn ofynnol i gofrestru aelodaeth o glybiau preifat, nid yw'r Ysgrifenyddiaeth yn argymell dilyn y trywydd yma o ran yr argymhelliad hwn.

Buddiannau Anuniongyrchol

Mae Rheol Sefydlog 4 a'r Atodiad i'r rheolau sefydlog yn nodi'r categorïau o fuddiannau y dylid eu cofrestru. Yn ychwanegol, penderfynodd y Cynulliad [19 Mai 1999], pan yn mabwysiadu ei gyfarwyddyd i Aelodau'r Cynulliad ar Gofrestru a Datgan Buddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill, y dylai aelodau gofrestru buddiannau tebyg i'r rhai y cyfeirir atynt yn Adran 72 o Ddeddf Llywodraeth Cymru a Rheol Sefydlog 4. Penderfynodd y Cynulliad hefyd y dylid cofrestru "buddiannau anuniongyrchol Aelodau yn y materion a ddisgrifir yn Atodiad A i Reolau Sefydlog y Cynulliad neu faterion tebyg…os yw'n rhesymol i eraill sy'n ymwybodol o'r buddiant gredu y gallai ddylanwadu ar y ffordd y mae'r Aelod yn cynnal busnes y Cynulliad." Mae'r un peth yn berthnasol i ddatganiadau.

Y ddadl ydyw a ddylid, er mwyn cyflawnder, ddod â'r cynigion ychwanegol hyn o fewn y rheolau sefydlog. Nid oes unrhyw reswm i wneud hynny ar sail "plismona" gan fod cyfrifoldebau'r Pwyllgor yn ymestyn y tu hwnt i'r rheolau sefydlog i "unrhyw gynnig sy'n cyfeirio at fuddiannau ariannol neu fuddiannau eraill yr Aelodau". Byddai eu cynnwys yn Rheol Sefydlog 4 yn dod â hwy o fewn terfynau Adran 72 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1988 gan fethu â chydymffurfio a chymryd rhan mewn perthynas â buddiannau anuniongyrchol sydd hefyd yn destun cosb droseddol.

Mater 7 – i'w ystyried gan y Pwyllgor

A ddylid dod â chynigion ychwanegol y Cynulliad ar fuddiannau o fewn Rheol Sefydlog 4?

Argymhelliad

- *Nid yw cynnig y Cynulliad yn glir. Mae nifer o faterion ac anomaleddau wedi codi yn ystod cam cyntaf yr adolygiad*
- *Oherwydd y byddai Adran 72(6) yn dod I rym petai'r buddiannau anuniongyrchol hyn yn dod o fewn y rheolau sefydlog, mae'r Ysgrifenyddiaeth o'r farn yr argymhellir cadw'r sefyllfa bresennol. Mae, fodd bynnag, yn credu y dylid adolygu'r cynnig; gwneir adroddiad arall ar hyn.*

Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 13 Ebrill, codwyd y cwestiwn a ddylid cofrestru/datgan

buddiannau'r partner-aelodau (h.y. Aelodau sydd â phartneriaid yn y Cynulliad). Ystyrir hyn gan yr Ysgrifenyddiaeth sy'n medru gweld y pryderon. Yn y lle cyntaf, fodd bynnag, credir y byddai'n anodd iawn cynllunio diffiniad a oedd yn rhesymol a chynaliadwy. Ceisir cyngor cyfreithiol a chaiff ei gynnwys yn yr adroddiad uchod.

Adroddiad Neill

Mae dau argymhelliad yn adroddiad Neill sydd â'r gallu i effeithio ar yr adolygiad, sef:

- Cyfraith droseddol llwgrwobrwyo – y llywodraeth i gyflwyno deddfwriaeth gyn gynted ag sy'n bosibl. Bydd angen i'r Cynulliad newid y rheolau sefydlog i ddygymod â'r ddeddfwriaeth newydd.
- Gwahardd eiriolaeth am dâl – petai hyn yn cael ei weithredu, byddai hyn yn llaesu rheolau'r Cynulliad ar gychwyn trefniadau i ddod â hwy yn unol â rhai cymryd rhan. Fodd bynnag, mae Adran 72(4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru yn gofyn i'r Rheolau Sefydlog gynnwys darpariaeth i wahardd Aelod rhag "dadlau dros na chychwyn unrhyw achos neu fater ar ran unrhyw berson, drwy unrhyw ddull a nodir yn y Rheolau Sefydlog o ran ystyried unrhyw dâl mewn nwyddau neu gynnyrch yn ôl disgrifiad a ddynodir".

Mae'r argymhellion eraill yn ymwneud â safonau'r Aelodau naill ai eisoes yng nghyfarwyddyd neu ddeddfwriaeth y Cynulliad neu maent yn cyfeirio at y trefniant trafod cwynion. Mae'r Ygrifenyddiaeth yn paratoi adroddiad cynhwysfawr ar yr argymhellion i'w hystyried gan y Pwyllgor Safonau yn ei gyfarfod ar 11 Mai (STD-05-17-00).

Newidiadau i'r Trefniadau Cyflwyno Cofnodion ar y Gofrestr

Mae'r Pwyllgor wedi cytuno o'r blaen i newid Rheolau Sefydlog 4.3 a 4.4 i ganiatáu i'r Aelodau gyflwyno cofnodion ar y gofrestr drwy'r post neu'r AMSS yn hytrach na (dim ond) yn bersonol. Mae angen newid y cyfarwyddyd i adlewyrchu'r newid hwn a fabwysiadwyd gan y Cynulliad ar 5 Ebrill.

Angen Gweithredu Ychwanegol:

- *Mae angen ymgorffori'r newidiadau i Reol Sefydlog 4 i'r prif gyfarwyddyd ar gofrestru a datgan buddiannau.*

Cyffredinol – Cyfarwyddyd i Aelodau

Mae'n eithaf clir fod yr Aelodau (a'r swyddogion) yn gweld y cyfarwyddyd presennol yn afrosgo ac yn rhy gymhleth i'w ddefnyddio. Mae nifer o achlysuron wedi bod yn y [12] mis diwethaf lle mae angen wedi bod i droi peth o'r cynnwys ffurfiol i ffurf gryno/fywiog. Mae

yna hefyd achlysuron ymarferol (e.e. pan yn mynychu'r Pwyllgor) pan fyddai'n ddefnyddiol bod â nodyn atgoffa byr am yr hyn y gellir ei wneud a'r hyn na ellir ei wneud. Mae'r Ysgrifenyddiaeth felly yn gweithio ar gyfeirlyfr poced cyflym dwy-ochrog a dwyieithog i'w ddosbarthu i'r Aelodau. Ni fydd hwn yn disodli'r cyfarwyddyd ffurfiol sydd wedi'i dderbyn gan y Cynulliad. Bydd angen hwnnw o hyd i drafod manylion anghenion y Ddeddf, rheolau sefydlog a phenderfyniadau'r Cynulliad. Adolygir y cyfarwyddyd ffurfiol, fodd bynnag, i weld a ellir gwneud gwelliannau i egluro'r anghenion a chael gwared ar ail-adrodd di-angen. (Er enghraifft, mae'n eglur fod angen adran ar wahân ar fuddiannau anuniongyrchol.)

Bydd brasfodel o'r cyfeirlyfr byr ar gael i'r Pwyllgor ei ystyried. (STD 05-18-00 Atodiad 2).

Rhan III – Diweddglo

I ddilyn ar ffurf adroddiad drafft llawn a ddosberthir yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor ym mis Mai.

Atodiad 1

Categorïau'r Buddiannau y gellir eu cofrestru

Mae'r Rheolau Sefydlog yn ei gwneud yn ofynnol i'r Aelodau nodi'r symiau perthnasol o dan y categori hwn pan yn cofrestru buddiant i'r £5000 agosaf. Lle y mae'r swm o dan sylw yn is na £5000, gall Aelodau naill ai ddatgan fod y swm yn is na £5000 neu roi amcangyfrif i'r £50 agosaf.

Pan yn penderfynu a ddylid cofrestru a pha swm i'w gofrestru, dylai'r Aelodau fesur gwerth neu werth tebygol buddiant dros y flwyddyn ganlynol o ddyddiad cofrestru'r buddiant ymlaen. Lle y mae'n debyg y bydd amrywiad yn y gwerth, dylid cynnwys y gwerth cyfartalog dros y flwyddyn.

O dan Reol Sefydlog 4.4, dylid cofrestru buddiannau newydd neu rai sydd wedi'u diwygio, neu ddiwygio'r cofrestriad yn ôl yr achos, o fewn pedair wythnos i'r Aelod ddod yn ymwybodol o'r angen i gofrestru neu ddiwygio'r cofrestriad. Yn ychwanegol, ar 1 Gorffennaf o bob blwyddyn, dylai Aelod ystyried a oes rhaid diwygio gwerth buddiant cofrestredig. Os yw Aelod yn ymwybodol fod gwerth buddiant wedi cynyddu neu leihau ers iddo gael ei gofrestru, dylid diwygio'r cofnod.

Nid yw'n ofynnol i Aelod drefnu i gynnal gwerthusiad blynyddol ar fuddiant.

Atodiad 2

Amlinelliad o'r Cynnwys a Argymhellir ar gyfer Arweinlyfr Poced yr Aelodau ar Gofrestru a Datgan Buddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill

Rhagwelir y bydd yr arweinlyfr yn ddwyieithog ar ffurf cefn wrth gefn ac o bosibl ar ffurf cerdyn credyd sy'n plygu.

Cofrestru

Mae'n ofynnol i chi gofrestru buddiannau uniongyrchol yn unrhyw un o'r categorïau canlynol:

Swyddi Cyfarwyddwr, Cyflogaeth [£5000 agosaf], Anrhegion [£x], etc

Os oes buddiant anuniongyrchol gennych yn unrhyw un o'r canlynol, hwyrach y dylech hefyd gofrestru hynny, ond dim ond os y teimlwch y gellid cymryd fod hyn yn effeithio ar y ffordd yr ydych yn gweithredu….

Mae gennych bedair wythnos i'n hysbysu am unrhyw newidiadau.

Datganiad

Mae angen i chi ddatgan unrhyw fuddiannau yn y categorïau uchod pan fyddwch yn cymryd rhan. Pryd ? – cyn i chi lefaru ym mhob sesiwn lawn; cyfarfodydd Pwyllgor, mae fel arfer yn ddigon i wneud hynny unwaith y tymor oni bai fod gennych fuddiant newydd neu fod newid.

Geiriad defnyddiol "xxxxxxxx"

Pleidleisio

Cyngor y Pwyllgor Safonau yw : os oes gennych amheuaeth, peidiwch â phleidleisio. Nid yw gwaharddiad yn berthnasol ond mewn achosion lle y byddai'r buddiant uniongyrchol a'r fantais i chi yn fwy nag i'r unigolyn cyffredin…etc

Cymryd Rhan

Nid yw bod â buddiant yn eich atal rhag cymryd rhan, ond dylech ei ddatgan [gweler uchod]

Cyngor/Cymorth

Swyddfa Gyflwyno – pwyntiau cyswllt

Gwybodaeth Bellach a Chafeat

Gweler y Cyfarwyddyd ar fuddiannau'r Aelodau. Crynodeb byr, heb fod yn gynhwysfawr, anogir yn gryf fod Aelodau'n darllen y cyfarwyddyd ffurfiol. Dylech fod yn ymwybodol y gallai methu â chydymffurfio arwain at gosb droseddol a/neu fe allai'r mater gael ei gyfeirio at y Pwyllgor Safonau.

Ysgrifenyddiaeth